Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**




# Cartref Gofal Cantref

Creu teulu o gymorth: teuluoedd yn helpu teuluoedd i wneud penderfyniadau gofal

## Cefndir

Mae Cartref Gofal Cantref yn y Fenni wedi darparu gofal i bobl hŷn ers 1986. Mae'r cartref yn cefnogi hyd at 21 o breswylwyr 65 oed a throsodd â thîm o 30 o staff. Cydnabu'r tîm mai dewis gofal preswyl yw'r un o'r penderfyniadau anoddaf y gall teuluoedd ei wynebu, felly aeth ati i greu ffordd i deuluoedd gefnogi ei gilydd ar hyd y daith hon.

## Beth mae'n ei wneud yn wahanol?

Gofynnodd Cantref i deuluoedd presennol a fyddent yn fodlon siarad â theuluoedd a oedd yn ystyried y cartref. Roedd yr ymateb yn eithriadol. Mae bellach gan y gwasanaeth dîm o aelodau o deuluoedd sy'n rhannu eu profiadau. Mae'r dull yn cynnwys:

- Cymorth teulu-i-deulu, lle mae perthnasau yn rhannu eu pryderon a'u hemosiynau, ac yn rhoi sicrwydd i eraill bod y teimladau hyn yn normal
- Safbwyntiau gonest yn deillio o brofiad bywyd, gyda theuluoedd yn deall y sefyllfa mewn ffyrdd na all y staff ei deall
- Tryloywder ac ymddiriedaeth, gyda'r staff yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i deuluoedd ac yn eu cynnwys mewn penderfyniadau, gan feithrin ymddiriedaeth drwy gydberthnasau hirsefydlog
- Ymestyn yr 'ymdeimlad teuluol' wrth i deuluoedd newydd ymuno â chymuned sefydledig lle gallant fynd at y staff ar unrhyw adeg

## Impact ...

- Sicrwydd emosiynol i deuluoedd sy'n cael cymorth gan bobl sydd wir yn deall
- Llai o euogrwydd a phryder drwy glywed am brofiadau pobl eraill, gan normaleiddio teimladau anodd
- Amgylchedd mwy heddychlon i'r preswylwyr, oherwydd pan fo teuluoedd yn teimlo'n fodlon, mae'r preswylwyr yn synhwyro hynny
- Cymuned o eiriolwyr sy'n tyfu, gyda theuluoedd yn barod i gefnogi ei gilydd ar hyd y daith hon
- Enw rhagorol, gydag un teulu yn sôn bod rhywun wedi disgrifio Cantref fel "y cartref gofal gorau roedd erioed wedi bod iddo"

> *“Nid diwallu anghenion yn unig yw gofal - mae'n ymwneud hefyd ag ymddiriedaeth, gonestrwydd, a'r ‘ymdeimlad teuluol’ rydym yn ei rannu â'r preswylwyr, perthnasau a'r staff.”*